# HYSBYSIAD O ETHOLIAD

## Etholiad Senedd Cymru

## Ar gyfer Etholaeth Casnewydd Islwyn

1. Caiff etholiad ei gynnal ar gyfer Aelodau i wasanaethu yn y Senedd ar gyfer etholaeth Casnewydd Islwyn.

2. Gellir cael papurau enwebu gan y Swyddog Canlyniadau Etholaeth yn swyddfeydd Cyngor Dinas Casnewydd, Ystafell 528, Canolfan Ddinesig, Godfrey Road, Casnewydd NP20 4UR neu'n electronig yn etholiadau2026@casnewydd.gov.uk o 24 Mawrth 2026 tan 4pm ddydd Mercher 8 Ebrill 2026.

3. Rhaid cyflwyno papurau enwebu a ffurflenni cyfeiriad cartref i'r Swyddog Canlyniadau Etholaeth yn Ystafell 528, Canolfan Ddinesig, Godfrey Road, Casnewydd NP20 4UR rhwng 10am a 4pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwn (ac eithrio gwyliau banc) neu'n electronig yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad ar gyflwyno'n electronig a geir isod ond dim hwyrach na 4pm ar ddydd Iau 9 Ebrill 2026.

4. Os ymleddir yr etholiad, cynhelir y bleidlais ar **ddydd Iau 7 Mai 2026.**

5. Rhaid i geisiadau i gofrestru i bleidleisio gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn hanner nos ar ddydd Llun 20 Ebrill 2026. Gellir gwneud ceisiadau ar-lein: **https://www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio**

6. Gellir talu'r ernes fesul ymgeisydd unigol, neu'r ernes o £500 am yr ymgeisydd cyntaf ar restr plaid, a £200 am bob un o'r pum ymgeisydd nesaf ar y rhestr plaid, trwy dendr cyfreithiol neu drwy ddrafft banciwr gan dynnwr sy'n cynnal busnes fel banciwr yn y Deyrnas Unedig. Gellir talu symiau blaendal yn electronig hefyd ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd Ffurflen Blaendal Talu. Rhaid cyflwyno papurau enwebu cyn gellir gwneud y blaendal.

7. Rhaid i geisiadau, gwelliannau neu gansladau pleidleisiau post gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol priodol erbyn 5pm ddydd Mawrth 21 Ebrill 2026.

8. Rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol priodol erbyn 5pm ar ddydd Mawrth 28 Ebrill 2026.

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau Etholaeth, Canolfan Ddinesig, Godfrey Road, Casnewydd NP20 4UR

9. Gellir cysylltu â Swyddog Cofrestru Etholiadol Casnewydd yn Ystafell 506, Canolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR:
   - ebost pleidleisia@casnewydd.gov.uk
   - ffoniwch 01633 987880.

10. Gellir cysylltu â Swyddog Cofrestru Etholiadol Islwyn yn Nhŷ Bargoed, 1 Fford Gwladys, Bargoed, CF81 8AB:
   - ebost etholiadau@caerffili.gov.uk
   - ffoniwch 01443 866586.

**11. Datganiad o ddanfoniad electronig**

Os cyflwynir papurau enwebu yn electronig, rhaid gwneud hynny yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad hwn.

Defnyddiwch y cyfeiriad e-bost hwn ar gyfer unrhyw ymholiadau, gan gynnwys gwiriadau anffurfiol a chyflwyniadau, os byddwch am gyflwyno eich papurau enwebu yn electronig.

etholiadau2026@casnewydd.gov.uk

Defnyddiwch y pwnc perthnasol isod:
1. Gwiriad anffurfiol
2. Cyflwyniad
3. Ymholiad

Dylid cyflwyno Papurau Enwebu fel un ddogfen mewn atodiad, yn hytrach nag atodi pob tudalen fel atodiad ar wahân.
Dogfennau PDF a Word yw'r unig fformatau a dderbynnir.

Gellir talu'r ernes fesul ymgeisydd unigol, neu'r ernes o £500 am yr ymgeisydd cyntaf ar restr plaid, a £200 am bob un o'r pum ymgeisydd nesaf ar y rhestr plaid, trwy dendr cyfreithiol neu drwy ddrafft banciwr gan dynnwr sy'n cynnal busnes fel banciwr yn y Deyrnas Unedig. Gellir talu symiau blaendal yn electronig hefyd ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd Ffurflen Blaendal Talu. Rhaid cyflwyno papurau enwebu cyn gellir gwneud y blaendal.

Cewch gadarnhad drwy e-bost pan fydd eich cyflwyniad yn cael ei dderbyn.

> **Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau bod y Swyddog Canlyniadau yn derbyn y ffurflenni enwebu wedi'u cwblhau yn y modd cywir erbyn y terfyn amser.**
>
> Nid yw hysbysiad electronig bod eich e-bost wedi'i agor yn gadarnhau bod yr enwebiad yn ddilys. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn anfon hysbysiad

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau Etholaeth, Canolfan Ddinesig, Godfrey Road, Casnewydd NP20 4UR

trwy e-bost i hysbysu ymgeisydd o'i benderfyniad ynghylch a yw'r enwebiad yn ddilys ai peidio.

Os bydd angen cymorth arnoch wrth gyflwyno enwebiadau yn electronig, e-bostiwch etholiadau2026@casnewydd.gov.uk.

Dyddiedig: 23 Mawrth 2026

Beverly Owen
Swyddog Canlyniadau Etholaeth

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau Etholaeth, Canolfan Ddinesig, Godfrey Road, Casnewydd NP20 4UR